

# Coronafeirws a Fi'

Gweithdy 'Coronafeirws a Fi'  
Pobl Ifanc oed 15-18



- Rhannu canfyddiadau'r arolwg
- Galluogi plant a phobl ifanc i drafod a myfyrio ar eu profiadau yn ystod y cyfyngiadau symud gyda gweithwyr proffesiynol yn eu lleoliad
- Trafod unrhyw heriau newydd mae pobl ifanc yn eu hwynebu
- Trafod y camau nesaf ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw

Mae'r gweithdy hwn yn cysylltu â'n briffiad ar brofiadau pobl ifanc 15-18 oed o bandemig y coronafeirws a'r cyfnod clo.

**Sylwch:** Sylwch: Gall y sesiwn yma gynnwys trafodaethau a fydd yn codi profiadau ac emosiynau anodd i blant a phobl ifanc. Dechreuwch y sesiwn â rhai rheolau sylfaenol ar gyfer trafodaethau grŵp a gofalwch fod gennych chi wybodaeth i gefnogi'r plant a'r pobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.

Efallai byddwch chi am drefnu'r gweithdy yma i ddilyn ymlaen o'n [Gweithdy Llysgenhadon Uwchradd 11-16](#) ar yr arolwg 'Coronafeirws a Fi'.



Canlyniad dysgu	Gweithgaredd	Amser
<b>Cyflwyniad</b>	<p>Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw sefyll i fyny dros hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru a'u diogelu. Mae gan bawb sydd o dan 18 oed 42 o hawliau, sydd i'w gweld ar y <a href="#">poster</a>.</p> <p>Ym mis Mai 2020, lansiodd Sally arolwg i gasglu profiadau pobl ifanc yn ystod pandemig y coronafeirws. Ymatebodd dros 23,000 o blant a phobl ifanc i'r arolwg. Roedd dros 4,000 o'r rhain yn bobl ifanc 15-18 oed. Nod y gweithdy yma yw rhoi cyfle i chi edrych ar y canfyddiadau a myfyrio ar brofiadau pobl ifanc o'r grŵp oed yma.</p>	<b>5 munud</b>
<b>Rhannu prif ganfyddiadau'r arolwg</b>	<p>Mewn grwpiau bach, rhannwch y canfyddiadau allweddol hyn yn rhai 'gwir' ac 'anwir' (atodiad). Mae'r atebion cywir isod.</p> <p><b>GWIR:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yr effaith fwyaf ar sut roedd pobl ifanc 15-18 oed yn teimlo oedd methu treulio amser gyda ffrindiau (71%)</li><li>• Dim ond 16% o'r bobl ifanc oedd yn hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo.</li><li>• Roedd pobl ifanc yn gyffredinol yn pryderu mwy am effaith y feirws ar bobl eraill nag arnyn nhw eu hunain.</li></ul> <p><b>ANWIR:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd 56% o bobl ifanc yn hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo.</li><li>• Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo'n hyderus yn eu dysgu yn ystod y cyfnod yma.</li><li>• Doedd 74% o bobl ifanc ddim yn teimlo'n ddiogel yn ystod argyfwng y coronafeirws.</li></ul>	<b>10 munud</b>

<p><b>Meddwl am brofiad y coronafeirws yng nghyd-destun hawliau</b></p>	<p><b>Dewiswch un o'r pynciau canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddylai mynediad i'r rhyngwrwyd fod yn un o hawliau dynol pobl ifanc?</li> <li>• Ydy pandemig y coronafeirws wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar berthnasoedd cymdeithasol?</li> <li>• Ddylai dull dysgu cyfunedig (h.y. cyfuniad o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb) barhau?</li> </ul> <p>Gallech chi naill ai gael trafodaeth yn y dosbarth, neu ofyn i bobl ifanc drafod y cwestiwn mewn grwpiau bach a rhoi adborth i weddill y dosbarth.</p> <p>Gallai'r bobl ifanc ddefnyddio'r canlynol yn sail ar gyfer eu dadleuon:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="#">Canfyddiadau'r arolwg</a></li> <li>• <a href="#">Eu profiadau eu hunain</a></li> <li>• <a href="#">Storïau newyddion</a></li> <li>• <a href="#">Poster CCUHP</a></li> </ul>	<p><b>20 munud</b></p>
<p><b>Myfyrio ar y drafodaeth</b></p>	<p>Rhowch adborth ar y prif bwyntiau o drafodaeth y dosbarth/grŵp.</p> <p>Meddyliwch am sut gall llywodraethau sicrhau nad yw rhai o'r pethau buoch chi'n eu trafod yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc? Oes yna unrhyw beth allai newid yn eich ysgol/coleg/ lleoliad?</p> <p>Cynigiwch rai syniadau fel dosbarth.</p>	<p><b>15 munud</b></p>
<p><b>Diwedd</b></p>	<p>Penderfynwch oes yna unrhyw gamau i'w cymryd yn ôl trafodaeth/cynllun y dosbarth. Cewch ragor o syniadau ar gyfer newid pethau yn ein hadnodd '<a href="#">Gwneud Gwahaniaeth</a>'</p>	<p><b>10 munud</b></p>

**Torrwch y brawddegau yma allan a'u cymysgu.  
Yna, mewn grwpiau bach, rhannwch y gosodiadau  
isod yn rhai 'GWIR' ac 'ANWIR'.**



- 1. Yr effaith fwyaf ar sut roedd pobl ifanc 15-18 oed yn teimlo oedd methu treulio amser gyda ffrindiau.**
- 2. Dim ond 16% o'r bobl ifanc oedd yn hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo.**
- 3. Roedd pobl ifanc yn gyffredinol yn pryderu mwy am effaith y feirws ar bobl eraill nag arnyn nhw eu hunain.**
- 4. Roedd 56% o bobl ifanc yn hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo.**
- 5. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo'n hyderus yn eu dysgu yn ystod y cyfnod yma.**
- 6. Doedd 74% o bobl ifanc ddim yn teimlo'n ddiogel yn ystod argyfwng y coronafeirws.**